# Polisi Disgyblaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd

Pwrpas y polisi hwn yw diffinio rheolau ar gyfer ymddygiad a sicrhau trefn yn yr ysgol. Llunnir y rheolau hyn er mwyn sicrhau fod Ysgol Gyfun Llangynwyd yn gymuned ysgol hapus a threfnus. Drwy nodi'r rheolau isod, sicrheir tegwch a chysondeb mewn gweithrediad y rheolau ysgol.

Seilir y polisi disgyblaeth hwn ar ethos o barch a chyd-barch. Isod ceir adran o'r cytundeb ysgol-cartref sy'n gysylltiedig â rheolau i ddisgyblion.

Fel disgybl, rwyf yn cytuno i'r canlynol:
- Parchu staff, disgyblion eraill, rheolau'r ysgol, safle'r ysgol ac unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r ysgol neu eraill.
- Cydymffurfio â rheolau gwisg ysgol.
- Cyrraedd yn brydlon i'r ysgol ac i wersi.
- Ceisio fy ngorau yn fy mhynciau ysgol, boed o fewn gwersi a thrwy astudiaethau tu allan i wersi.
- Ymddwyn yn berthnasol pan wyf yn teithio i'r ysgol ac adref; yn ystod unrhyw ymweliadau a gynhelir gan yr ysgol ac yn ystod unrhyw weithgareddau allgyrsiol.
- Cwblhau gwaith annibynnol ar amser i orau fy ngallu.
- Rhoi gwybod i riant neu athro os oes problemau gennyf yn yr ysgol.

## <u>Agweddau disgyblaeth dda</u>

Disgwylir i ddysgwyr ymddwyn mewn ffordd sydd yn barchus i'r ysgol ac i eraill ac mewn ffordd sy'n cadw enw da i'r ysgol. Dylent hefyd sicrhau eu bod yn dod â'r offer neu'r wisg berthnasol i wersi.

**Disgwyliadau o ran dysgwyr - cyffredinol**
- Siaradwch Gymraeg ar bob achlysur.
- Cyfeirio at athro/awes yn gwrtais
- Dal drws i aelod o staff/ymwelydd.
- Parchu eraill a'r safle
- Dim rhedeg o fewn yr adeilad.
- Cerddwch ar y chwith mewn coridorau ac ar y grisiau.
- Aros tu fas i ystafelloedd dosbarth nes bod yr athro/awes yn cyrraedd. Ni ddylai disgyblion fod mewn ystafell heb fod athro/awes yn bresennol oni bai bod caniatâd penodol wedi cael ei rhoi gan yr athro/awes sy'n gyfrifol am yr ystafell hynny.
- Peidiwch â gweiddi allan – codwch eich llaw i ateb cwestiwn.
- Peidiwch ag amharu ar addysg eraill.
- Peidiwch â siarad o fewn gwersi oni bai fod hawl wedi cael ei rhoi gan yr athro/awes.

## **Ar y ffordd i'r ysgol ac adref**

- Dylech ymddwyn mewn ffordd ddiogel a pharchus wrth deithio i'r ysgol ac adref (boed mewn bws, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu trwy gerdded). Byddwch yn barchus i unrhyw oedolion eraill sydd â gofal drosoch ar eich ffordd i'r ysgol ac adref.
- Nid oes hawl gyrru beic i'r ysgol nes bod asesiad llawn o ddiogelwch y daith ar feic ar hyd yr heol fawr wedi ei gyflawni.
- Mae rheolau'r ysgol wrth deithio i'r ysgol ac adref ynglŷn â thrais i eraill, bwlian neu ddefnyddio geiriau anweddus yn cael eu hystyried yr un mor ddifrifol â digwyddiadau o fewn yr ysgol. Parchwch bobl eraill.
- Rhowch unrhyw sbwriel mewn bin.

## **O fewn gwersi neu gyfnodau eraill dan oruchwyliaeth athro**

- Dewch ag unrhyw offer neu wisg angenrheidiol ar gyfer y wers.
- Cyrhaeddwch yn brydlon i'r wers. Sefwch y tu allan i'r ystafell mewn rhes. Peidiwch â bod yn rhy swnllyd.
- Parchwch hawl bob dysgwr i dderbyn addysg heb ymyrraeth.
- Codwch eich llaw i ateb ac i ofyn cwestiwn.
- Cymerwch ran yn y wers:
    - Dilynwch gyfarwyddiadau'r athro ar bob achlysur.
    - Gwnewch eich gorau yn ystod y wers.
    - Peidiwch â siarad oni bai bod caniatâd gennych i wneud.
    - Os ydych wedi gorffen eich gwaith, edrychwch dros y gwaith ac yna rhowch wybod i'r athro bydd yn eich cyfeirio at y dasg nesaf.

## **Amser egwyl a chinio**

Yn y ffreutur

- Ciwiwch yn synhwyrol.
- Rhowch unrhyw sbwriel yn y bin.
- Nid oes hawl gennych i gymryd bwyd na diod tu fas i'r ffreutur/neuadd.
- Cliriwch eich platiau a sicrhewch fod y bwrdd yn lân cyn ymadael.
- Mae llawer o bobl yn y ffreutur: cerddwch a pheidiwch â gweiddi.
- Siaradwch Gymraeg ar bob adeg.

## **Gweddill y safle**

- Siaradwch Gymraeg.
- Byddwch yn synhwyrol ac yn ymwybodol o eraill wrth i chi chwarae neu symud o gwmpas y safle.
- Nid oes hawl gennych i fod mewn ystafell ddosbarth neu goridor yn ystod egwyl na chinio oni bai bod caniatâd gennych gan athro/awes.
- Os yw'r tywydd yn arw, bydd hawl gennych i fynd i'r ffreutur, y neuadd, neu'r gampfa.
- Yr unig le dylech chwarae gêm gyda phêl yw ar y brif iard, cau aml-dywydd neu'r caeau.


**<u>Camau Cywiro – canllawiau i staff</u>**

Llunnir y camau isod er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch mewn gweithredu rheolau'r ysgol. Disgwylir i ddysgwyr ddangos parch at eu gwaith ac eraill (dysgwyr eraill, staff ac unrhyw ymwelwyr) yn ystod gwersi ac ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod ysgol.

Nid yw'r canllawiau isod yn gynhwysfawr nac yn cwmpasu pob math o gamymddygiad a ddigwydda mewn bywyd ysgol. Serch hynny, maent yn dangos camau pendant i'w cymryd mewn rhai sefyllfaoedd. Bydd disgwyl i'r athro sy'n gweithredu'r camau gymryd y sefyllfa i ystyriaeth wrth weithredu.

Os yw dysgwr yn torri'r rheolau, disgwylir i athrawon ddilyn y camau pendant isod.

Mae'r sgript isod i'w ddefnyddio wrth weithredu'r camau:




**Syniadau Sgript Camau Cywiro**

Cam 0

(Enw), diolch am ffocysu ar dy waith, mae hynny'n helpu pawb Oes problem o gwbl?

(Enw) cofia mae rheolau gennym o ran......

(Enw) hoffwn dy fod yn ffocysu ar dy waith fel y gwnest ti ddoe/wers ddiwethaf.

(Enw) diolch am gyfrannu at y wers a byddaf yn dod yn ôl atat mewn munud.

(Enw) cofia fod rheol gennym o ran siarad ar draws eraill.

Cam 1

(Enw), dwi newydd d'atgoffa felly unai rwyt yn aros fan hyn i ffocysu ar dy waith, neu elli di symud i'r sedd yna fel sydd yn ein rheolau ysgol.

Cam 2

(Enw), rwyt ti wedi dewis peidio cydymffurfio, felly er mwyn cael cymorth ychwanegol gyda'th waith, diolch am symud yma.

Cam 3

(Enw), mae'r ffordd yr wyt yn dewis ymateb heddiw yn golygu symud i ystafell arall i ffocysu ar dy waith, diolch.

Cam 4

(Enw), er mwyn i ti, a phawb arall, weithio i'w gorau, ffoniaf yn awr am ragor o gefnogaeth i ti.

***Cam 0 – 2 : Delio â'r camymddygiad o fewn y dosbarth.***

***Cam 0*** - Esbonio'r camymddygiad i'r dysgwr a sut dylai ymddwyn
***Cam 1*** – Rhoi rhybudd ffurfiol i'r dysgwr
***Cam 2*** - Symud y dysgwr i weithio gyda dysgwyr eraill
Symud y dysgwr i fan arall o'r ystafell ar ei b/phen ei hun

***Cam 3 -*** Symud y dysgwr i ddosbarth arall (o fewn yr un adran lle bo'n bosib – i ystafell yr Arweinydd Pwnc lle bo'n bosib/ymarferol).

Strategaethau posib

- Symud y dysgwr i ystafell arall o fewn yr adran neu i ystafell gydweithiwr. Ni ddylid anfon dysgwyr allan o ystafell i sefyll tu allan am unrhyw reswm.
- Nodyn yn llawlyfr y dysgwr.
- Rhowch wybod i Arweinydd Cynnydd a Lles y dysgwr trwy Classcharts.

**<u>Cam 4: Eithrio'r dysgwr o'r wers</u>**

Os yw dysgwr yn gwrthod cydymffurfio â cham 3 neu os yw'r dysgwr yn camymddwyn mewn ystafell wedi iddo/i gael ei symud, bydd angen gweithredu cam 4.

Diffinnir cam 4 o'r gyfundrefn ddisgyblaeth fel nad yw'r wers yn gallu parhau neu os yw'r dysgwr yn gwrthod dilyn cyfarwyddiadau'r athro/awes.

Strategaeth

- Codi'r ffôn, ffoniwch y swyddfa a gofyn am aelod o'r UDA. Mae aelodau o'r UDA neu aelod o staff "ar ddyletswydd" ar gyfer galwadau o'r fath.
- Mae angen i'r aelod o staff lenwi mewn y slip coch i fynd â'r dysgwr i Llannerch.
- Disgwylir adroddiad gan yr athro perthnasol ar Classcharts erbyn diwedd egwyl/cinio/diwedd dydd yn dibynnu ar amser y digwyddiad.
- Yn dilyn eithriad o wersi, bydd galwad ffôn i rieni'r dysgwr gan y Pennaeth Blwyddyn.
- Mae yna bosibiliad caiff y dysgwr ei eithrio am ddiwrnod cyfan yn ystafell Llannerch, lle bydd yn parhau â gwaith pynciol dan amgylchiadau tawel a chefnogol.

Os yw'r ymddygiad yn deilwng o Gam 4 mae'r aelod o staff sydd ar argyfwng yn mynd â'r dysgwr i Llannerch. Os yw'r dysgwr yn mynd i N1 am y tro cyntaf, mae'n aros yno tan yr egwyl nesaf e.e. gwers 1 a 2 – gadael ar ôl egwyl, gwers 3, 4 (a 5 i GA3) - gadael 15 munud wedi i amser cinio ddechrau. Os yw'r dysgwyr yn mynd i N1 am yr ail dro mewn diwrnod, mae'n aros yno am y diwrnod cyfan ac yn cael cinio ar wahân.

- ➢ Athro yn cwblhau adroddiad ar Classcharts erbyn diwedd y dydd ar yr hwyraf ac hysbysu'r AMC.
- ➢ Staff N1 yn cofnodi Cyfnod o ynysu ar Classcharts gan nodi'r wers a brawddeg yn datgan ymroddiad y dysgwr tra mae yno e.e. "cydymffurfio'n dda", "pen ar y ddesg" a gwirio os oes cofnod o'r dysgwr yno ynghynt y diwrnod hwnnw.
- ➢ Drwy greu Cyfnod o ynysu ar Classcharts bydd ebost yn hysbysu'r Pennaeth Blwyddyn o'r digwyddiad er mwyn sicrhau galwad adref. Os yw'r digwyddiad yn un difrifol bydd y dysgwr yn aros yn N1 am gyfnod hirach.

Monitro'r achosion

Adroddiadau i'w gwneud yn wythnosol gan y Pennaeth Blwyddyn:

Cam Cyntaf

- Dysgwyr sydd wedi derbyn 20 pwynt neu fwy dros y tair wythnos yn derbyn e-bost safonol adref gyda rhybudd bod y Pennaeth Blwyddyn yn monitro'r sefyllfa.

Yr Ail Gam

- Dysgwyr sydd wedi derbyn e-bost yn barod ac wedi ychwanegu at y cosbau yr wythnos hon yn derbyn galwad ffôn yn nodi mai cosb ar ôl ysgol fydd y cam nesaf.

Y Trydydd Cam

- Dysgwyr sydd wedi derbyn e-bost yn barod, cosb ar ôl ysgol ac sydd eto wedi ychwanegu at y cosbau yr wythnos hon yn derbyn cosb fugeiliol ar ôl ysgol lle bydd cyfarfod gyda'r PB i lunio cynllun cynnydd a'r rhieni yn derbyn copi wrth gasglu'r dysgwr. Rhaid adolygu'r cynllun cynnydd bob tair wythnos. Os wedi gwireddu'r targedau mae'r cynllun yn dod i ben. Os yw'r dysgwr yn methu'r cynllun cynnydd ddwy waith, mae'r dysgwr yn derbyn cynllun ymddygiad yn sgil cyfarfod gyda'r rhiant.

## Gwaharddiad dros dro

Gweithredir hyn ar gyfer gweithrediadau difrifol sy'n torri rheolau'r ysgol neu ddigwyddiad sydd yn peryglu unigolion.

Caiff dysgwyr eu gwahardd dros dro ar gyfer trais, bwlio mynych, dwyn, defnyddio iaith anweddus tuag at aelodau o staff, ymddwyn yn ymosodol tuag at staff neu ddysgwyr eraill, neu weithrediadau sy'n torri cyfraith gwlad, e.e. alcohol, cyffuriau, dod ag arf neu danwyr i'r ysgol.

Y Prifathro neu'r UDA sy'n penderfynu ar hyn.

## Gwaharddiad parhaol

Y cam nesaf yn dilyn cyfres o waharddiadau dros dro neu drwy weithred/iadau difrifol iawn. Gwneir yr ysgol ei gorau i osgoi'r cam hwn. Bydd y Corff Llywodraethol yn rhan hanfodol o'r broses hon.

## Gwobrwyo

Mae'r ysgol yn defnyddio Class Charts er mwyn rhoi clod i ddysgwyr. Mae sawl categori a bydd pwyntiau yn cael eu hychwanegu'n syth wrth gysylltu â SiMS.